**Nodyn Briffio Cymorth Treth Cyngor i Ofalwyr Maeth yng Nghymru**

**Medi 2026**

## Crynodeb

Fel rhan o'n hymgyrch #CostOFaethu, mae'r Rhwydwaith Maethu yn galw am ddull gweithredu mwy cyson tuag at gymorth treth cyngor i ofalwyr maeth ledled Cymru.

Dywed gofalwyr maeth wrthym fod a wnelo cymorth treth cyngor â mwy na chymorth ariannol. Mae'n ffordd weladwy o gydnabod y rôl hanfodol sydd gan ofalwyr maeth mewn darparu cartrefi sefydlog, llawn cariad i blant a phobl ifanc 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Mae cymorth ar hyn o bryd yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mae hanner awdurdodau lleol Cymru (11 o 22) yn cynnig rhyw fath o ddisgownt neu eithriad ar dreth cyngor i ofalwyr maeth, gyda phump (22.7%) yn cynnig disgownt treth cyngor llawn neu hyd at 100%, ac mae pump arall (22.7%) yn cynnig disgownt hyd at 50%. Ni wyddom faint o Asiantaethau Maethu Annibynnol sy'n darparu disgownt neu eithriad ledled Cymru, ond rydym yn ymwybodol bod rhai, er enghraifft, TACT, yn gwneud.

## Pam mae cymorth treth cyngor yn bwysig

Ledled Cymru, mae awdurdodau lleol yn cyflwyno gostyngiadau ac eithriadau treth cyngor yn gynyddol i ofalwyr maeth fel rhan o strategaethau recriwtio a chadw gafael. Fodd bynnag, mae darpariaeth yn parhau'n anghyson, gan greu gwahaniaethau sylweddol yn y cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth, yn dibynnu ar le y maent yn byw.

Dywed gofalwyr maeth yn gyson wrthym fod a wnelo cymorth treth cyngor â chydnabyddiaeth, yn ogystal â chymorth ariannol. Wrth i fwy o awdurdodau lleol yng Nghymru gyflwyno disgowntiau ac eithriadau, mae yna gyfle i ystyried p'un a ddylai dull gweithredu mwy cyson fod ar gael i ofalwyr maeth ledled Cymru.

Nid yw cymorth treth cyngor yn ddatrysiad i'r holl heriau sy'n wynebu gofal maeth, ond mae'n un ffordd ymarferol o werthfawrogi gofalwyr maeth.

**Recriwtio a chadw gafael**

Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru diweddar fod yna ar yr 31ain o Fawrth, 2025, 7,072 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, gyda 68% yn byw mewn lleoliadau gofal maeth, ac amcangyfrifwn fod angen tua 400 o deuluoedd maeth ychwanegol yng Nghymru.

Yn ein adroddiad Cyflwr y Cenhedloedd, dywedodd 56% o ofalwyr maeth yng Nghymru eu bod wedi ystyried ymddiswyddo o faethu, gyda 26% yn nodi anawsterau ariannol fel ffactor cyfrannol. Nododd gwasanaethau maethu hefyd gyllidau, yn cynnwys costau byw a'r lefel o gymorth ariannol sydd ar gael i ofalwyr maeth, fel un o'r rhwystrau pennaf rhag recriwtio gofalwyr maeth newydd.

Bydd recriwtio mwy o deuluoedd maeth a chadw gafael ar ofalwyr maeth profiadol yn hanfodol i sicrhau y gall plant gael at y gofal y mae arnynt ei angen yn eu cymunedau lleol. Mae cymorth treth cyngor yn un mesur ymarferol a all gyfrannu tuag at yr ymdrechion recriwtio a chadw gafael ehangach hyn.

**Cymorth treth cyngor cyfredol yng Nghymru**

Mae cymorth i ofalwyr maeth yn amrywio ar hyn o bryd yn sylweddol ledled Cymru. O'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae 11 (50%) yn cynnig rhyw fath o ddisgownt neu eithriad treth cyngor i ofalwyr maeth, tra nad yw'r 11 sy'n weddill yn gwneud hynny.

Mae pum awdurdod lleol (22.7%) yn cynnig disgownt treth cyngor llawn neu hyd at 100%. Mae pum awdurdod arall (22.7%) yn cynnig disgownt hyd at 50%, ac mae un awdurdod (4.5%) yn cynnig 30% o ddisgownt.

Mae'r ffaith bod 11 o awdurdodau lleol eisoes wedi cyflwyno disgowntiau neu eithriadau treth cyngor yn dangos y gellir ei weithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae cymorth yn dal i fod yn anghyson, gan greu loteri cod post lle y gall gofalwyr maeth sy'n ymgymryd â'r un rôl dderbyn gwahanol lefelau o gymorth, yn dibynnu ar le y maent yn byw. Mae creu Maethu Cymru wedi cryfhau cydweithrediad rhwng gwasanaethau maethu awdurdodau lleol, ac wedi galluogi rhai cynghorau i rannu dysg, achosion busnes a dulliau gweithredu, wrth i fwy o awdurdodau archwilio cynlluniau cymorth treth cyngor. Caiff treth cyngor ar hyn o bryd ei rhestru o dan 'Cynigion lleol ychwanegol' y mae rhai awdurdodau lleol yn eu darparu fel rhan o'r Ymrwymiad Cenedlaethol, ond nid yw wedi'i rhestru fel cymhelliant penodol y dylid ei ddarparu.[1]

**Yr hyn y mae gofalwyr maeth ac awdurdodau lleol yn ei ddweud wrthym**

Fel rhan o ddatblygu'r ymgyrch hon, trafododd Y Rhwydwaith Maethu gymorth treth cyngor gydag aelodau o Fwrdd Cynghori Gofalwyr Maeth Cymru. Roedd yna gefnogaeth gref i ymestyn yr ymgyrch i Gymru.

Dywedodd gofalwyr maeth wrthym y gallai cymorth treth cyngor:

- cydnabod y cyfraniad a wna gofalwyr maeth;

[1] https://fosterwales.gov.wales/fostering-allowances-and-support-in-wales/

- helpu gofalwyr maeth i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi;
- cynorthwyo i gadw gafael;
- cryfhau ymdrechion recriwtio.

Nid ynglŷn â budd ariannol yr oedd y neges gryfaf, ond ynglŷn â chymorth treth cyngor fel arwydd gweledol o gydnabyddiaeth.

Gwnaeth trafodaethau gydag awdurdodau lleol adleisio hyn, gan ddisgrifio cymorth treth cyngor fel yn fwyaf effeithiol o'i gyflawni fel rhan o becyn ehangach o gymorth, ac amlygwyd pwysigrwydd cefnogaeth wleidyddol, ymgysylltu ag aelodau etholedig a gweithredu gofalus.

Er enghraifft, disgrifiodd Sir Benfro ei chynllun peilot ar eithriad treth cyngor fel rhan o strategaeth ehangach i gynyddu cynhwysedd maethu awdurdod lleol, tra bod Merthyr Tudful wedi adrodd bod cymorth treth cyngor wedi'i dderbyn yn gadarnhaol gan ofalwyr maeth.

Pwysleisiodd y ddau awdurdod y dylid ystyried cymorth treth cyngor fel un elfen o becyn recriwtio a chadw gafael ehangach yn hytrach nag ymyrraeth annibynnol.

**Galwad Y Rhwydwaith Maethu**

Gyda hanner awdurdodau lleol Cymru eisoes yn cynnig rhyw fath o gymorth treth cyngor i ofalwyr maeth, mae yna gyfle i adeiladu ar arferion lleol presennol a mabwysiadu dull gweithredu cenedlaethol mwy cyson ledled Cymru.

Galwn ar:

- Llywodraeth Cymru i adolygu cymorth treth cyngor sydd ar gael ar hyn o bryd i ofalwyr maeth ledled Cymru.
- Llywodraeth Cymru i asesu effaith cymorth treth cyngor ar recriwtio, cadw gafael a lles gofalwyr maeth.
- Maethu Cymru i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson yn genedlaethol tuag at gymorth treth cyngor i ofalwyr maeth fel rhan o'u Hymrwymiad Cenedlaethol.
- Awdurdodau lleol i ystyried a chynnig eithriad treth cyngor i'w gofalwyr maeth.
- Llywodraeth Cymru i weithio tuag at yr uchelgais cyfnod hir o eithriad treth cyngor cenedlaethol i ofalwyr maeth, fel y gallai gofalwyr mewn Asiantaethau Maethu Annibynnol ac Awdurdodau Lleol, fel ei gilydd, elwa.